Beth wyf i?

Sut i chwarae / Pwyntiau dysgu

Mae dalen 'post it' (sy'n glynu) neu label cyfrifiadurol gyda gweithgaredd addysgu'r corff arno'n cael ei osod ar gefn pob disgybl.

Mae'r disgyblion yn symud o amgylch y neuadd ac, ar arwydd y penderfynwyd arno ymlaen llaw, maent yn ffurfio pâr.

Y disgyblion yn cymryd eu tro i holi cwestiynau gyda dim ond 'ie' neu 'na' yn atebion posibl iddynt.

Y disgyblion yn holi un neu ddau o gwestiynau ac yna'n symud ymlaen.

Y disgyblion yn ceisio dyfalu pa weithgaredd / weithred sydd ar y label ar eu cefn hwy. Unwaith maent yn meddwl eu bod wedi dyfalu, mae'r disgyblion yn perfformio'r weithred.



Addasu'r gweithgaredd

Symleiddio

- **Rhoi dewis o blith dwy weithred wrthgyferbyniol i'r disgyblion, er enghraifft, Cath Flin a Dysgl**
- **Cyfyngu ar nifer y gweithredoedd y gallai'r weithred fod**
- **Y 'labelau' i gynnwys lluniau ac enw'r gweithgaredd**
- **Cyfyngu ar y gweithgareddau i grŵp o weithredoedd sylfaenol, er enghraifft, Rholio neu Neidio**
- **Annog cwestiynau gan y disgyblion, er enghraifft, 'Gofynnwch rywbeth ynghylch pa rannau o'r corff sydd mewn cyswllt â'r llawr?'**
- **Caniatáu i'r disgyblion ddefnyddio CD Rom modiwl 1 neu ddalennau adnoddau data i'w hatgoffa eu hunain o'r gweithredoedd**

Herio

- **Y 'labelau' i gynnwys geiriau yn unig**
- **Gallai'r gweithgareddau / gweithredoedd fod yn unrhyw rai maent wedi rhoi sylw iddynt**
- **Caniatáu i'r disgyblion holi eu cwestiynau eu hunain**

Manteision Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd

- **Datblygu cryfder, stamina/dygnedd a hyblygrwydd, gan ddibynnu ar y gweithredoedd a hyd y gweithgaredd**

Cysylltiadau â'r dysgu yn y dyfodol

> **Helpu i ddatblygu symudiad a chof y disgyblion**

> **Helpu i ddatblygu sgiliau holi'r disgyblion**

> **Allweddi dosbarthu syml mewn Gwyddoniaeth**

